**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**15/03/2018**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol. Roedd aelodau'n flin i weld bod y Neuadd Pantyfedwen wedi bod yn destun difrod, oherwydd y tywydd garw diweddar.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Clare Hughes (Caderiydd); Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cyngh. Doug Rowbotham; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd Y Dirprwy-Gadeirydd y Gyngh. Angharad Jones a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Dywedwyd bod ceir wedi eu dwyn a bod cyffuriau'n broblem yng nghyffiniau Heol y Teras.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 15FED O CHWEFROR 2018**
**CYNIGIWYD** (Y Gyngh. Mair Jones) **EILIWYD** (Y Gyngh. Laura Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 15fed o Chwefror 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Mr Igho Emeseh, C. S. Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. Roedd perchennog yr eiddo o'r enw Garfield wedi mynegi consyrn nad oedd unrhyw wybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ceredigion parthed y bont gerdded arfaethedig a'r effaith o bosibl ar ei eiddo. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ofyn am esboniad.

**7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
Gwnaeth y Cadeirydd y Gyngh.Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn; bydd angen symud polyn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.3 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2017** Cynhaliodd ROSPA arolwg parc yn ystod mis Mehefin am ffi o £66.50. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i afael â'r

materion a godwyd yn yr Adroddiad. Dywedwyd bod angen sylw ar y cylchfan. Penderfynwyd clustnodi sylw pellach i'r sefyllfa yn ystod Gwanwyn 2018, pan fyddai'r matiau yn cael eu hystyried yn ogystal.

**7.4 Grant Gwyrdd, C.S. Ceredigion**
Prynwyd 2 arwydd sy'n gwahardd tipio anghyfreithlon, i'w harddangos ger y Banc Potel. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn prynu deunyddiau, sy'n ofynnol ar gyfer codi'r arwyddion. Derbyniwyd gwybodaeth pellach gan Beverly Hodgett, Rheolwr Prosiect Perfformiad Gwastraff ac Ymgysylltu, Cyngor Sir Ceredigion parthed y Grant Gwyrdd o £500, a allai fod ar gael. Mae casglwyr sbwriel ar gyfer plant wedi eu prynu a darperir bagiau gwastraff bwyd yn rhad ac am ddim i drigolion. Anfonebau i'w cyflwyno gerbron Cyngor Sir Ceredigion erbyn yr 31.03.2018. Gwnaed trefniadau ar gyfer casglu sbwriel yn y Pentref.

**7.5 Creu gwefan ar gyfer y Pentref**
Argymhellodd Archwiliad Grant Thornton Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17 ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gael gwefan mewn lle yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
Adroddodd Y Gyngh. Laura Jones, y Gweinyddwr, fod y wefan bellach yn "fyw" www.ccystradfflurcc.co.uk; diolchwyd i'r Gyngh. Jones am ei hymdrechion. Ystyriwyd y manteision / anfanteision o sefydlu tudalen Facebook i'r Cyngor Cymuned; cytunwyd gwneud hynny.
Diolchwyd i'r Cyngh. John Jones am gyfieithu cynnwys Saesneg y safle ar y we. Bwriedir cynnwys polisïau y Cyngor Cymuned i gynnwys Rheolau Sefydlog ar y safle ar y we, a fydd yn gosod canllawiau clir ar hawliau'r cyhoedd o fewn cyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

**7.6 Cŵn yn Baeddu:** penderfynodd y Cyngor Cymuned i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at y broblem barhaus o gŵn yn baeddu yn y Pentref. Archebwyd chwistrellu lliw a bwriedir eu defnyddio.

**7.7 Cinio Blynyddol: Dydd Sadwrn 12fed Mai, 2018** sefydlwyd fel y dyddiad i gynnal y ginio yn y Llew Coch, Pontrhydfendigaid, yn ystod y cyfarfod blaenorol. Nid yw'r dyddiad hwn ar gynnig gan y Llew Coch. Penderfynwyd gofyn petai'r 18fed o Fai 2018 yn gyfleus.

**7.8 Parcio ger y Neuadd Pantyfedwen:** derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Matthew Collins, Rheoli Traffig a Cynorthwyydd Strategaeth, Adran Priffyrdd, CSC ar yr 20/02/2018 a oedd yn darllen, "Bydd y Cyngor Sir yn dechrau ymgynghoriad ar gwaharddiad-aros yma fel rhan o'r rownd nesaf o newidiadau i gyfyngiadau parcio ar draws y Sir, fel y trafodwyd gyda'r aelod lleol, y Cyngh. Ifan Lloyd-Davies. Cynhwysir y Cyngor Cymuned yn yr ymgynghoriad, a gallaf gadarnhau ein bod yn bwriadu cynnig gwaharddiad-aros yn y lleoliad hwn".

**7.9 Cerflun Y Ddynes Ger y Gofgolofn:** ceisir gwybodaeth.

**7.10 Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi y Frenhines Elisabeth 11**: y mae trefniadau ar y gweill i arddangos plac ger y Dderwen.

8. **GOHEBIAETH**

8.1 **Un Llais Cymru (ULIC) Dealltwriaeth o'r Gyfraith**: Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth, Dydd Mercher 21 Mawrth 2018. Mae disgrifiad byr o'r sesiwn: Dyletswyddau a Grymoedd Statudol ; Ultra Vires; Grymoedd Dirprwyo; Deddf yr Iaith Gymraeg; Y ddyletswydd i hyrwyddo Cyfleoedd Cyfartal; Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth; Ffynonellau Cyngor.
**Y mae'n fwriad gan y Gyngh**. Laura Jones i fynychu sesiwn hyfforddiant ULIC a dywedodd ei bod am gwrdd â'r gost ei hun.

8.2 **Cwrs Hyfforddi Rheoli Minc:** Ystrad Meurig 21/03/2018: 18:30-22:00.

8.3 **Llythyr, nodyn cyfarwyddyd a'r ffurflen gais mewn perthynas â Llywodraeth Cymru (LlC):** cymorth ar gyfer sefydlu cychwynnol: mae trefniadau ar y cyd ar dair thema graidd: ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth a chlystyru leol, sydd ar gynnig ar gyfer 2018- 19.

8.4 **Gohebiaeth Arall:** Er gwybodaeth yn Unig.

9. **CYLLID**

9.1 **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd ond ni dderbyniwyd llyfr siec; caiff arian ei dynnu allan o'r prif gyfrif. Penderfynwyd gwneud cais am lyfr-siec.

9.2 **Cyflog y Clerc** Chwefror/Mawrth 2018 £155.07 x2.

9.3 **Cyllid a Thollau EM** Chwefror/Mawrth 2018 £38.76 x2.

9.4 **WordPress: Gosod mewn lle: ccystradfflurcc.org.uk:** £36; £21.80.

9.5 **Torri Glaswellt o gwmpas y Pentref Dros fisoedd yr Haf;** penderfynwyd ceisio datganiadau o ddiddordeb.
Bydd y gwaith yn cynnwys: Glan-yr-Afon - (3 toriad); Mynedfa i'r Pentref gan gynnwys y Glas a'r ardal ger yr Eglwys (o'r arwydd y Pentref / pot blodau i'r Gofgolofn) x6; O amgylch Neuadd Pantyfedwen x6; Ardal Ysgol Feithrin x6; Ardal o laswellt o Wal y Bont i 3 Pencreigiau ym Maesydderwen. Dyfynbris fesul toriad. Dyddiad Cau Dydd Iau 15fed o Fawrth 2018,12 hanner dydd.

1. **Mr Dilwyn Benjamin:** dyfynnwyd ar gyfer 4 toriad, er y gofynnwyd am 3 doriad, Glan-yr-afon ac o wal y bont i 3 Pencreigiau, Maesydderwen-£40 = £160, (6 toriad i'r fynedfa i'r Pentref i gynnwys y Glas a'r ardal o amgylch yr Eglwys; O amgylch Neuadd Pantyfedwen x6; ardal Ysgol Feithrin x6; O amgylch Neuadd Pantyfedwen x6) - £150 /toriad = £900 (o'r arwydd ar fynedfa'r Pentref/Pot blodau i'r Gofgolofn) £15 x 6 = £90 **Cyfanswm - £1,150.**
2. **J G Jones, Bryn Villa; Ystrad Meurig:** Glan-yr-Afon £50 x3; Mynedfa £100 x6; Pantyfedwen £50 x6; Ysgol Feithrin £50 x6; Pencreigiau £50x3; CYFANSWM £300 / toriad. Cyfanswm £1,500
3. **Samsaws:** £340 fesul toriad.

**CYNIGIWYD, EILIWYD A PHENDERFYNWYD** yn unfrydol i dderbyn cynnig Mr Dilwyn Benjamin o £1,150.

**9.6 CEISIADAU ARIANNOL 2017-18**
Cruse - Gofal Mewn Galar; Ysgol Fethrin, Pontrhydfendigaid; Tenovus – Gofal Canser; Clybiau Ffermwyr Ifanc; Samariaid; Marie Curie - Gofal a chymorth trwy salwch terfynol; Cyngor ar Bopeth Ceredigion; Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018; Theatr Felinfach; Barcud - Papur Bro Tregaron; Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen 2018; Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2018; Shelter Cymru. **Ar ôl trafod yn ofalus penderfynwyd gwneud y cyfraniadau canlynol: Theatr Felinfach £50; Ysgol Feithrin y Bont £50; Clwb Ffermwyr Ifanc £50; Papur Bro'r Barcud £50.**

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**10.2 Cais Cynllunio: A180144. Y Bwriad: Lleoli 2 gei bugeilio a Gwaith cysylltiedig**. Ymgeisydd: D. Jones. Lleoliad: Dolbeudiau, Ystrad Meurig, Pontrhydfendigaid, SY25 6EJ. Sylwadau’r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**11.1 Mae ceudwll ar Stryd y Felin**: i atgofio Cyngor Sir Ceredigion.

**11.2 Adroddwyd** bod lorïau coed wedi’u parcio ar y Glas.

**11.3 Diolchwyd i'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies;** y Cyngh. Gareth Owen a'r Cyngh. Doug Rowbotham am helpu trigolion yn ystod y tywydd garw diweddar, i glirio'r eira o'u heiddo.

**11.4 Tynnodd y Cynghorydd Laura Jones sylw'r aelodau at fentrau lleihau plastig yng Ngheredigion** a chynigiodd y dylai'r Pentref ymdrechu am statws "ddi-blastig" trwy leihau y defnydd o blastig untro mewn busnesau / ysgol / y gymuned a defnyddio dewisiadau cynaliadwy yn ogystal â chefnogi casgliadau sbwriel a digwyddiadau eraill sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o faterion plastig untro. Cefnogodd CS Ceredigion yn ei gyfarfod ar 22.02.2018 yn unfrydol y cynnig i leihau'r defnydd o blastig ac i gefnogi mentrau lleihau plastig yng Ngheredigion. Gellid sefydlu Grŵp Llywio i oruchwylio'r fenter hon.

**11.5 Ffens yng nghyffiniau 8 Cwrt y Wern** – ffens wedi syrthio, hoelen yn ywthio allan: i adrodd at sylw *Tai Ceredigion.*

***Daeth y cyfarfod I ben am* 8.45pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Dydd Iau 19eg o Ebrill 2018 at 7pm**

====================================================
(Arwyddwyd/Dyddiad )